



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru (SASW)

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2017

# Canllawiau

# Cynnwys

<b>Canllawiau Fframwaith ar gyfer Awdurdodau Cyhoeddi</b>	<b>01</b>
Cyflwyniad	01
Fframweithiau prentisiaeth - cyffredinol	02
Confensiynau enwi ar gyfer fframwaith prentisiaeth	03
Cymwysterau – cymhwysedd a gwybodaeth	03
Sgiliau Hanfodol	05
Sgiliau Cyflogadwyedd Hanfodol	06
Hawliau a chyfrifoldebau cyflogeion	06
Y Gymraeg	07
Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	08
Hyfforddiant yn y gwaith a hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith	08
Gofynion Galwedigaethol Ychwanegol	09

## Canllawiau Fframwaith ar gyfer Awdurdodau Cyhoeddi

Cyhoeddir y canllawiau hyn o dan adran 18 o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (ASCLA). Rhaid i awdurdodau cyhoeddi roi ystyriaeth i'r canllawiau hyn wrth ymarfer eu swyddogaeth o gyhoeddi fframweithiau prentisiaethau Cymru. Bwriad y canllawiau hyn yw ymhelaethu ar hyn a chynnig eglurhad i Awdurdodau Cyhoeddi sydd, yn unol ag Adran 19 o ASCLA, yn gorfod bodloni eu hunain fod y fframweithiau yn bodloni'r gofynion a geir yn Pennu Safonau Prentisiaethau i Gymru (SASW). Dylai datblygwyr fframweithiau hefyd gyfeirio at y Canllawiau er mwyn sicrhau na chaiff fframweithiau a gyflwynir i Awdurdodau Cyhoeddi eu gwrthod am nad ydynt yn cydymffurfio.

Mae'r canllawiau hyn yn disodli'r canllawiau a geir yn rhannau 2 a 3 o'r SASW a gyhoeddwyd ym mis Mai 2013<sup>1</sup>

### Cyfeirnod Adran

Cyflwyniad	
G1. Drwy orchymyn a wnaed o dan Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (ASCLA) addaswyd <i>Pennu Safonau Prentisiaethau i Gymru (SASW)</i> . Mae SASW yn nodi'r gofynion statudol sylfaenol i'w cynnwys mewn fframwaith prentisiaeth cydnabyddedig i Gymru.	Adrannau 29 a 31
G2. Mae'r Awdurdodau Cyhoeddi a ddynodir gan Weinidogion Cymru, yn gyfrifol am sicrhau mai dim ond y fframweithiau hynny sy'n cydymffurfio â SASW a gyhoeddir ac felly fframweithiau cydnabyddedig Cymru. Rhaid i awdurdodau cyhoeddi Cymru ystyried Canllawiau SASW wrth ddod i benderfyniad ynghylch p'un a yw cyflwyniad fframwaith yn cydymffurfio â SASW.	Adrannau 18 a 19
G3. Gwnaed addasiadau i'r SASW gwreiddiol er mwyn caniatáu, ymhlith pethau eraill, gymwysterau "procsi" fel dewis amgen cydnabyddedig yn lle Sgiliau Hanfodol, gweler G27 am ragor o fanylion. Mae SASW wedi cael ei addasu hefyd er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd wrth sicrhau cymhwysedd galwedigaethol drwy alluogi dysgu i gael ei ategu gan Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) lle y maent yn bodoli, neu safonau ar gyfer y diwydiant cyfan neu safonau proffesiynol os nad ydynt yn bodoli. Yr addasiad terfynol i SASW yw'r un i Hawliau a Chyfrifoldebau Cyflogwyr (ERR) nad ydynt yn orfodol mwyach yn fframweithiau SASW. Gweler G33 am ragor o fanylion. Gwnaed newidiadau canlyniadol eraill hefyd yn ogystal â rhywfaint o ad-drefnu. Daw'r holl newidiadau a grybwyllir uchod i rym ar 14 Hydref 2016.	Adran 29

<sup>1</sup>Dogfen ganllawiau rhif: 105/2013

<b>Fframweithiau Prentisiaeth - Cyffredinol</b>	
G4. Fframwaith prentisiaeth yw'r lefel uchel o gwricwlwm dysgu a chymwysterau mewn sgil, masnach neu alwedigaeth benodol y dylai prentis ei chyflawni er mwyn bod yn gymwys ar gyfer tystysgrif prentisiaeth. Mae fframwaith prentisiaeth yn cynnwys cymwysterau o FfCChC (Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru).	Adran 31 (2)
G5. Nodweddir prentisiaeth gan sgiliau a gafaelwyd, dealltwriaeth a phrofiad a gafwyd mewn gweithle (hyfforddiant yn y gwaith) a dysgu sy'n digwydd i ffwrdd o'r amgylchedd gwaith arferol (hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith): h.y. dysgu sy'n arwain at gyflawni cymhwysedd llawn. Am y rheswm hwn, dylai'r cymhwyster cymwyseddau gynnwys y rhan fwyaf o'i asesiad drwy dystiolaeth a gasglwyd o weithle	Adran 31 (2)
G6. Dylai fframwaith prentisiaeth nodi unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol a all gyfyngu ar fynediad i'r brentisiaeth.	Adran 31 (2)
G7. Mae fframwaith prentisiaeth yn cynnwys cymwysterau a gynigir ac ansawdd a sicrheir gan gyrff dyfarnu a gydnabyddir gan un o'r Rheoleiddwyr cymwysterau statudol fel Cymwysterau Cymru, OFQUAL, Awdurdod Cymwysterau'r Alban, y Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Aseu (CCEA) a Sefydliadau Addysg Uwch. Gall fframweithiau Prentisiaeth Uwch gynnwys cymwysterau a gynigir neu ansawdd a sicrheir gan gyrff proffesiynol. Dylai fframwaith adlewyrchu'r dysgu y mae'n rhaid ei wneud er mwyn i brentis gyflawni cymhwysedd llawn yn y sgil, masnach neu alwedigaeth y mae'n ymwneud ag ef/hi. Dylai maint fframwaith sicrhau ei fod yn cynnwys yr holl ddysgu a sgiliau trosglwyddadwy sy'n ofynnol, sy'n golygu bod y prentis, ar ôl eu cyflawni, yn gymwys i weithio mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.	Adran 31 (2)
G8. Dylai fframwaith gael o leiaf yr hyn sy'n cyfateb i 37 o Gredydau FfCChC o ran maint er y bydd llawer yn fwy na hyn. Fel canllaw, mae un credyd yn cyfateb i tua deg awr dysgu. Mae 37 o Gredydau yn cyfateb yn fras i 370 o oriau dysgu gan ddefnyddio systemau trefnu maint cymwysterau eraill fel Cyfanswm yr Amser ar gyfer Cymwysterau (RQF) a ddefnyddir yn Lloegr	Adran 31 (2)
G9. Pennir lefel fframwaith gan lefel y cymhwyster cymwyseddau galwedigaethol y mae'n ei gynnwys. Er enghraifft, mae fframwaith Prentisiaeth Sylfaen yn cynnwys cymhwyster cymwyseddau ar Lefel 2.	Adran 31 (2)
G10. Dylid sicrhau mai'r arfer safonol yw adolygu fframweithiau o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod	Adran 31 (2)

yn gyfredol. Dylid adolygu fframwaith o leiaf bob pum mlynedd. Gellir adolygu a diweddarau fframwaith yn amlach na hynny, os bydd y sgil, y fasnach neu'r alwedigaeth yn galw am hynny.	
G11. Dylai fframwaith gael ei ddatblygu a'i gyhoeddi gan ddefnyddio cronfa ddata Fframweithiau Prentisiaethau Ar-lein. Gellir ei gweld yn: <a href="http://www.afo.sscalliance.org/">http://www.afo.sscalliance.org/</a>	Adran 31 (2)
G12. Dylai Prentisiaethau Uwch gael eu datblygu mewn partneriaeth â'r corff neu gyrrff proffesiynol perthnasol (os ydynt yn bodoli) lle mae cwblhau prentisiaeth o'r fath yn llwyddiannus yn llwybr cydnabyddedig i gofrestrriad proffesiynol.	Adran 31 (2)

### Confensiynau enwi ar gyfer fframwaith prentisiaeth

G13. Pan fydd sgil, masnach neu faes galwedigaethol yn cwmpasu Lefel 2 a Lefel 3, dylid cyfuno'r lefelau hyn yn un ddogfen fframwaith. Dylid rhoi teitl i'r fframwaith sy'n adlewyrchu'r maes galwedigaethol a dylai gael ei adnabod wrth God SOC dau ddigid (Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol). Ni ddylid cyhoeddi dogfennau fframwaith ar wahân yn cwmpasu lefelau unigol o fewn yr un sgil, masnach neu faes galwedigaethol.	Adran 31 (2)
G14. Gellir cyhoeddi fframweithiau Prentisiaeth Uwch ar Lefelau 4, 5, 6 neu 7 ar wahân. Fodd bynnag, pan fydd llwybrau dilyniant yn glir ac amlwg, dylai'r lefelau gael eu cyfuno fel arfer yn un fframwaith. Dylai pob fframwaith gael ei adnabod wrth God SOC dau ddigid.	Adran 31
G15. Gall fframwaith gynnwys 'llwybrau' gwahanol sy'n gwahaniaethu rhwng yr ystod o swyddi gwahanol sydd ar gael o fewn yr alwedigaeth. Dylai pob llwybr gael ei adnabod wrth God SOC 3 neu 4 Digid. Ni ddylid cyhoeddi fframweithiau dyblyg yn cwmpasu'r un maes galwedigaethol ar lefel y Cod SOC dau ddigid.	Adran 31 (2)
G16. Ni ddylai teitl fframwaith gynnwys y geiriau "Prentisiaeth Sylfaen", "Prentisiaeth" na "Phrentisiaeth Uwch".	Adran 31
G17. Os bydd fframwaith Prentisiaeth Uwch wedi ei gymeradwyo/cydnabod i'w ddefnyddio gan gorff proffesiynol, gall teitl y fframwaith adlewyrchu'r derminoleg a gydnabyddir gan y sector.	Adran 31 (2)

### Cymwysterau – cymhwysedd a gwybodaeth

G18. Mae Adran 31 o ASCLA yn diffinio cymhwyseddau galwedigaethol perthnasol fel y cymhwyseddau sy'n ofynnol i gyflawni'r sgil, y fasnach neu'r alwedigaeth y mae'r	Adran 31 (2)
---	--------------

<p>fframwaith yn ymwneud ag ef/hi ar y lefel sy'n ofynnol yn y fframwaith. Dylai Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, lle y maent yn bodoli, neu safonau ar gyfer y diwydiant cyfan neu safonau proffesiynol os nad ydynt yn bodoli, gael eu defnyddio i ategu'r holl gymwysterau galwedigaethol a geir mewn fframwaith prentisiaeth ar unrhyw lefel (h.y. rhwng lefelau 2 a 7). Mae Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol lle y maent yn bodoli, neu safonau proffesiynol ar gyfer y diwydiant cyfan neu safonau proffesiynol os nad ydynt yn bodoli, yn fanylebau dan arweiniad cyflogwyr o berfformiad cymwys, sy'n ofynnol mewn sectorau gwahanol ledled y DU, sy'n darparu gofynion technegol galwedigaeth yn ogystal â'r meini prawf perfformiad angenrheidiol. Mae'r wybodaeth dechnegol berthnasol yn golygu'r wybodaeth dechnegol sy'n ofynnol i gyflawni'r sgil, y fasnach neu'r alwedigaeth y mae'r fframwaith yn ymwneud ag ef/hi ar y lefel sy'n ofynnol yn y fframwaith.</p>	
<p>G19. Lle y caiff yr elfennau gwybodaeth a chymhwysedd eu cyfuno a'u cydnabod fel un cymhwyster integredig, rhaid i'r ddwy elfen gael eu nodi ar wahân a'u hasesu ar wahân. Mae'n bwysig cynnal y gwahaniaeth hwn rhwng y ddwy elfen er mwyn sicrhau bod prentisiaethau, nid yn unig yn dangos y cymhwysedd i wneud y gwaith, ond hefyd yn datblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth dechnegol sylfaenol. Mae'r gwahaniaeth rhwng cymhwysedd a gwybodaeth yn galluogi unigolion i ennill credydau tuag at Brentisiaeth drwy gymryd rhan mewn rhaglenni dysgu eraill cyn hynny.</p>	<p>Adran 31 (2)</p>
<p>G20. Pan fydd fframwaith prentisiaeth yn cynnwys cymwysterau cymhwysedd a gwybodaeth dechnegol ar wahân, dylid enwebu'r cymhwyster cymhwysedd fel y 'Cymhwyster Cymwyseddau'. Pan fydd cymhwyster integredig, y 'Cymhwyster Cymwyseddau' fydd hyn. O dan amodau cwblhau safonol ASCLA, dyma'r cymhwyster y dylid ei gwblhau tra bo'r prentis yn gweithio o dan Gytundeb Prentisiaeth. Fodd bynnag, mae gan yr awdurdod ardystio ddisgresiwn i roi tystysgrif i brentisiaid sydd wedi cwblhau'r 'cymhwyster cymwyseddau' cyn y brentisiaeth. Mae'n bwysig sicrhau mai'r 'cymhwyster cymwyseddau' yw'r elfennau cymhwysedd neu ei fod yn cynnwys yr elfennau hynny gan mai dyma'r sgiliau a gaiff eu hymarfer a'u mireinio yn ystod dyletswyddau gwaith arferol, ar safle cyflogwyr, gan ddefnyddio eu hoffer a gyda phwysau a chwsmeriaid go iawn.</p>	<p>Adran 31 (2)</p> <p>Rhan 2</p> <p>Adrannau 7 ac 8</p>
<p>G21. Gall fframwaith prentisiaeth ganiatáu ar gyfer dewis cymhwyster drwy gynnwys amrywiaeth o gymwysterau integredig, cymhwysedd galwedigaethol a gwybodaeth. Gall prentisiaid gwahanol fod yn addas ar gyfer mathau</p>	<p>Adran 31 (2)</p>

<p>gwahanol o gymwysterau, a dylai pob un ohonynt fodloni'r gofynion a nodwyd yn y paragraffau blaenorol. Dim ond y cymwysterau hynny a nodir yn ôl teitl a all gael eu cydnabod ar gyfer cyhoeddi tystysgrif prentisiaeth. Ni ellir rhoi cymwysterau amgen neu debyg nas nodir mewn fframwaith yn eu lle.</p>	
<p>G22. Oni nodir y gofynion gwybodaeth drwy gymhwyster Addysg Uwch neu broffesiynol, dylai fframwaith prentisiaeth nodi y bydd y dull o asesu'r cymwysterau cymhwysedd a gwybodaeth (neu'r cymhwyster cymhwysedd/gwybodaeth integredig) yn destun rheoleiddio gan reoleiddwyr cymwysterau. Dylai'r gwaith o asesu'r cymhwyster gwybodaeth neu elfen ohono gael ei ddilysu'n allanol.</p>	Adran 31 (2)
<p>G23. Gall Graddau Galwedigaethol, Graddau Sylfaen, neu HNDs a HNCs gael eu defnyddio i fodloni'r gofynion o ran gwybodaeth dechnegol berthnasol ar gyfer fframweithiau Prentisiaeth Uwch. Gallant hefyd gael eu defnyddio fel cymhwyster gwybodaeth a chymhwyseddau cyfunol ar yr amod bod y dulliau asesu yn bodloni'r gofynion sylfaenol ar gyfer tystiolaeth ar sail gwaith.</p>	Adran 31 (2)
<p>G24. Gall Prentisiaeth Uwch nodi bod cymhwyster proffesiynol yn un a gydnabyddir gan y sector.</p>	Adran 31 (2)
<p>G25. Dylai fframwaith Prentisiaeth Uwch sy'n cynnwys gradd Addysg Uwch naill ai:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nodi'r cymhwyster/cymwysterau penodol yn ôl teitl ac enw'r sefydliad(au) dyfarnu; neu</li> <li>• Y sefydliad(au) addysgol sy'n cynnig y cymhwyster/cymwysterau; neu</li> <li>• Nodi'n glir ble y gellir gweld y rhestr o gymwysterau addysg uwch a gydnabyddir ar gyfer tystysgrif prentisiaeth.</li> </ul>	Adran 31 (2)

## Sgiliau Hanfodol

<p>G26. Fel arfer gorau, dylai pob fframwaith nodi lefelau cyflawniad disgwylidig y sgiliau hanfodol sy'n ofynnol ar gyfer y sgil, masnach neu alwedigaeth berthnasol.</p>	Adran 31 (2)
<p>G27. Dylai fframwaith Prentisiaeth nodi y dylai prentis gyflawni neu fod wedi cyflawni un o'r cymwysterau "procsi" cydnabyddedig ar gyfer y lefel prentisiaeth briodol, fel y crybwyllir yn y SASW presennol a gyhoeddwyd. Dylid derbyn y cyraeddiadau hyn fel cymhwyster amgen ar gyfer tystysgrif prentisiaeth i fodloni elfen berthnasol y Sgiliau Hanfodol.</p>	Adran 31 (2)

G28. Gall yr awdurdod sy'n dyroddi, yn ôl ei ddisgresiwn, nodi mewn fframwaith ei fod yn derbyn cymwysterau a reoleiddir sydd gyfwerth â'r cymwysterau procsi a restrir yn y SASW ar gyfer Sgiliau Hanfodol ym maes Cyfathrebu a Chymhwyso Rhif. Rhaid i unrhyw gymwysterau o'r fath nodi tystiolaeth o gyflawni'r cymwyseddau Cyfathrebu a Chymhwyso Rhif y mae cymwysterau Sgiliau Ehangach yn eu hasesu.	Adran 31 (2)
G29. Bydd Sgiliau Hanfodol Cymru (SHC) sydd wedi'u cyflawni fel rhan o'r Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC) yn gymwys. Bydd angen cyflwyno ardystiad penodol o deitl(au) a lefel(au)'r cymwysterau SHC a gyflawnwyd gan nad yw'r CBC yn darparu'r dystiolaeth benodol hon.	Adran 31 (2)
<b>Sgiliau Cyflogadwyedd Hanfodol</b>	
G30. Gall deilliannau dysgu mewn Sgiliau Cyflogadwyedd Hanfodol gael eu cynnwys fel gofyniad galwedigaethol ychwanegol. Lle caiff Sgiliau Cyflogadwyedd Hanfodol eu cynnwys fel gofyniad ar gyfer tystysgrif prentisiaeth Cymru, yna gall cyflawni'r holl gymwysterau Sgiliau Allweddol Ehangach mewn Gwella eich Dysgu a'ch Perfformiad eich hun, Datrys Problemau neu Weithio gydag Eraill ar y lefel a nodwyd gael eu derbyn fel cyflawniad procsi.	Adran 31 (2)
G31. Gall fframwaith prentisiaeth nodi, fel un o ofynion Tystysgrif Cymru, fod angen Sgiliau Cyflogadwyedd Hanfodol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• I lefel 1 o leiaf mewn fframwaith Lefel Sylfaen;</li> <li>• I lefel 2 o leiaf mewn fframwaith Prentisiaeth;</li> <li>• I lefel 2 neu uwch o leiaf mewn fframwaith Prentisiaeth Uwch ar lefel 4.</li> </ul>	Adran 31 (2)
G32. Fel arfer da gall datblygwr fframwaith, mewn ymgynghoriad â chyflogwyr yn y sector a phartneriaid perthnasol eraill, benderfynu a yw Sgiliau Cyflogadwyedd Hanfodol yn uniongyrchol berthnasol i berfformiad effeithiol yn y sgil, masnach neu alwedigaeth benodol neu'r sector.	Adran 31 (2)
G33. Fel arfer da, gall y fframwaith gynnwys rhesymau pam na nodwyd Sgiliau Cyflogadwyedd Hanfodol neu gall nodi lle y gellir cyflawni Sgiliau Cyflogadwyedd Hanfodol, naill ai o fewn cymhwyster neu rywle arall, os yw'n briodol.	Adran 31 (2)

### **Hawliau a chyfrifoldebau cyflogeion**

G34. Fersiynau blaenorol o SASW a geir yng ngofynion Rhan 1 ynghylch "Hawliau a Chyfrifoldebau Cyflogeion" (ERR). Nid yw'n ofynnol mwyach i'r agweddau hyn ar ddarparu	Adran 31 (2)
--	--------------



<p>hyfforddiant i brentisiaethau gael eu cynnwys yn orfodol mewn fframwaith. Fodd bynnag, gall datblygwyr fframwaith, fel arfer gorau, gynnwys ERR mewn fframwaith lle mae eu hangen yn benodol ar gyfer y sgil, masnach neu alwedigaeth.</p>	
<p>G35. Os ymgymerir ag ERR fel rhan o fframwaith prentisiaeth dylai'r prentis gyfleu ei fod:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn gwybod ac yn deall yr amrywiaeth o hawliau a chyfrifoldebau cyflogwyr a chyflogeion o dan y Ddeddf Cyflogaeth. Dylai hyn gwmpasu hawliau a chyfrifoldebau'r prentis o dan Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996, Deddf Cydraddoldeb 2010 a deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch, ynghyd â chyfrifoldebau a dyletswyddau cyflogwyr;</li> <li>• Yn gwybod ac yn deall y gweithdrefnau a'r ddogfennaeth yn ei sefydliad sy'n cydnabod ac yn diogelu ei gydberthynas â'i gyflogwr. Dylai hyfforddiant Iechyd a Diogelwch a Chydraddoldeb ac Amrywiaeth fod yn rhan annatod o raglen ddysgu'r prentis;</li> <li>• Yn gwybod ac yn deall yr amrywiaeth o ffynonellau o wybodaeth a chyngor sydd ar gael iddo ar hawliau a chyfrifoldebau ei gyflogwr. Dylai manylion am Fynediad i Waith a Chymorth Dysgu Ychwanegol gael eu cynnwys yn y rhaglen;</li> <li>• Yn deall y rôl a chwaraeir gan ei alwedigaeth o fewn ei sefydliad a'i ddiwydiant;</li> <li>• Yn meddu ar farn hyddysg am y mathau o lwybrau gyrfa sydd ar agor iddo;</li> <li>• Yn gwybod y mathau o gyrff cynrychioliadol ac yn deall eu perthnasedd i'w sgil, masnach neu alwedigaeth, a'i brif rolau a chyfrifoldebau;</li> <li>• Yn gwybod ble a sut i gael gwybodaeth a chyngor ar ei ddiwydiant, galwedigaeth, hyfforddiant a gyrfa;</li> <li>• Yn gallu disgrifio a gweithio o fewn egwyddorion a chodau ymarfer ei sefydliad;</li> <li>• Yn cydnabod ac yn gallu ffurfio barn ar faterion sydd o bryder i'r cyhoedd ac sy'n effeithio ar ei sefydliad a'i ddiwydiant.</li> </ul>	<p>Adran 31 (2)</p>

<b>Y Gymraeg</b>	
<p>G36. Dylai anghenion prentisiaid sy'n siarad Cymraeg gael eu hystyried a dylid hyrwyddo cyfleoedd i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Canllaw Arfer Da ar gyfer cyrff sectorau a chyrff sy'n pennu safonau wedi cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru er mwyn helpu i benderfynu ar y galw am sgiliau Cymraeg, cyfieithiadau</p>	<p>Adran 31 (2)</p>

<p>Cymraeg o safonau galwedigaethol cenedlaethol a chymwysterau galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Canllaw ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn:</p> <p><a href="http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/welshmediumskills/?lang=cy">http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/welshmediumskills/?lang=cy</a></p>	
--	--

<b>Cydraddoldeb ac Amrywiaeth</b>	
<p>G37. Mae'n bwysig bod fframweithiau prentisiaeth yn gynhwysol ac y gallant ddangos dull gweithredol o nodi a dileu rhwystrau i fynediad a dilyniant. Dylai fframweithiau hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig a'r rhai nad ydynt yn gwneud hynny. Nodweddion gwarchoddedig yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol. Dylai fframweithiau prentisiaeth hyrwyddo mynediad cyfartal i'r rhai sydd ag anhawster dysgu.</p> <p>Yn benodol, dylai fframwaith gynnwys datganiad yn nodi:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• P'un a oes tangynrychiolaeth o fewn y maes galwedigaethol a ble mae hynny;</li> <li>• Y rhwystrau i fynediad a dilyniant i unigolion o fewn y grwpiau hyn;</li> <li>• Pa gamau a gymerwyd i ddileu'r rhwystrau hyn neu i'w cyfiawnhau yn wrthrychol ar gyfer y sgil, y fasnach neu'r alwedigaeth.</li> </ul>	Adran 31 (2)

<b>Hyfforddiant yn y gwaith a hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith</b>	
<p>G38. Bydd y cydbwysedd rhwng hyfforddiant yn y gwaith a hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith yn amrywio yn dibynnu ar natur y fframwaith. Dylai'r holl hyfforddiant yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith a nodir yn y fframwaith ac a gyflawnir tra'n gweithio o dan gytundeb prentisiaeth gael ei gyflwyno o fewn oriau gwaith dan gcontract.</p> <p>Bydd y cydbwysedd rhwng hyfforddiant yn y gwaith a hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith ar gyfer prentisiaid unigol yn amrywio yn dibynnu ar brofiad blaenorol a chyrhaeddiad y dysgwr.</p>	Adran 31 (2)
<p>G39. Dylai fframwaith prentisiaeth nodi:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bod oriau dysgu yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith wedi'u cynllunio, eu hadolygu a'u gwerthuso ar y cyd rhwng y prentis a: thiwtor, neu athro; eu goruchwyliwr neu reolwr yn y gweithle; neu eu hyfforddwr neu fentor;</li> <li>• Bod cymorth ar gyfer hyfforddiant yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith drwy gyfrwng tiwtor, athro, goruchwyliwr, rheolwr, hyfforddwr neu fentor ar gael</li> </ul>	Adran 31 (2)

<p>pan fo'i angen ar y prentis;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bod oriau dysgu yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith yn cael eu cyflwyno drwy un neu fwy o'r dulliau canlynol: addysgu ar sail unigolyn neu grŵp; e-ddysgu; dysgu o bell; hyfforddi; mentora; arsylwi, adborth ac asesu; dysgu cydweithredol/ar y rhwydwaith gyda chymheiriaid; astudio dan arweiniad;</li> <li>• Nodweddir dysgu yn y gwaith gan sesiynau addysgu ffurfiol neu gynlluniedig a gyflwynir yn bennaf gan staff hyfforddi cymwysedig;</li> <li>• Oriau dysgu yn y gwaith yw'r rheini sy'n galluogi'r prentis i ddangos sgiliau ymarferol sy'n gysylltiedig â swyddi ac i'w harfer a'u cymhwyso yng nghyd-destun y swydd. Caiff y math hwn o ddysgu ei gyflwyno yn y gweithle.</li> </ul>	
--	--

<b>Gofynion Galwedigaethol Ychwanegol</b>	
<p>G40. Gall fframwaith nodi rhaglenni dysgu eraill i fodloni gofynion galwedigaethol penodol. Dylai'r rhaglenni hyn nodi'r deilliannau dysgu lefel uchel i'w cyrraedd. Gall y deilliannau dysgu gael eu nodi fel cymhwyster ffurfiol neu gallant fod yn asesiad annibynnol lle na chaiff cyrhaeddiad ei ddilysu drwy gyfrwng cymhwyster.</p>	Adran 31(2) (a)
<p>G41. Lle mae sgil, masnach neu alwedigaeth yn gofyn am 'Drwydded i Ymarfer' gydnabyddedig er mwyn tybio bod rhywun yn gymwys (er enghraifft, Gosod Boeleri Nwy), yna gellir cynnwys y gofyniad hwn fel un gorfodol mewn fframwaith prentisiaeth (Lefel 3) neu uwch.</p>	Adran 31(2) (a)